Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Medi 2022

Annwyl Gadeirydd,

Mae'n bleser gennyf amgáu'r Memorandwm Amcangyfrif sy'n cynnwys Prif Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Ategir hyn gan ein Cynllun Corfforaethol pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2026/27 [Cymraeg a Saesneg] a ddarparwyd i chi y llynedd.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae'r amcangyfrif a'r wybodaeth ategol yn nodi sut rydym yn bwriadu rheoli ein gwaith yn effeithiol yng Nghymru yn ystod 2023/24. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi pum amcan strategol ar gyfer y cyfnod. Mae'r rhain yn ceisio cynnal y safonau uchel ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system etholiadol, yn ogystal â mynd i'r afael â phwysau a meysydd i'w datblygu i wella cryfder democratiaeth yng Nghymru a'r DU ymhellach.

Cyn troi at y cefndir i amcangyfrif y flwyddyn nesaf, hoffem roi arwydd cynnar ei bod yn debygol y bydd angen i ni wneud amcangyfrif atodol i chi ym mis Tachwedd 2022. Er nad ydym yn sicr eto o'r union swm y gofynnir amdano, credwn fod hyn yn debygol o fod tua £0.140m oherwydd dyfarniadau cyflog a chyngor cyfreithiol a dderbyniwyd sy'n golygu nad yw'r cyllid disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwerthusiad statudol yr oedd ei angen arnom i gynnal y cynlluniau peilot etholiadol yn gynharach eleni yn dderbyniadwy mwyach.

Cefndir

Ein hamcanion strategol

Ein pum amcan strategol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 hyd Mawrth 2027 yw:

- cofrestru a phleidleisio hygyrch
- ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio
- gwasanaethau etholiadol lleol gwydn
- cyfraith etholiadol deg ac effeithiol
- system etholiadol fodern a chynaliadwy

Mae tri ffactor allweddol yn sail i'r gwaith hwn ac yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r amcanion strategol hyn:

- rydym yn dangos annibyniaeth ac uniondeb
- rydym yn sefydliad medrus lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth
- rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus a defnyddir adnoddau yn effeithiol.

Roedd y gwaith a wnaed ym mlwyddyn ariannol 2022/23 yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn llwyddiannus. Rhoesom gyngor ac arweiniad i, a monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chefnogi gweinyddwyr etholiadol a'r gymuned a reoleiddir. Cynhaliom raglen ymwybyddiaeth gyhoeddus a gweithgaredd addysg i gefnogi pleidleiswyr i gofrestru a deall sut i fwrw eu pleidlais. Yn ogystal â'r gwaith hwn, gwnaethom werthusiad o Gynlluniau Peilotiaid Pleidleisio Uwch Llywodraeth Cymru a chyhoeddi ein hadroddiad gwerthuso ar y rhain ym mis Awst. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ôl-etholiad ar Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru ym mis Mai 2022 yn gynharach y mis hwn, ac roedd hwn yn amlinellu argymhellion ar gyfer etholiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-24

Gan nad oes unrhyw etholiadau wedi'u trefnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, bydd gwaith y Comisiwn yng Nghymru yn hytrach yn canolbwyntio ar dri maes allweddol.

Yn gyntaf, byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar y rhaglen diwygio etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig yng Nghymru a diwygio'r Senedd. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddiwygiadau i foderneiddio gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru, megis gwella cofrestru a'r ffordd y gall pobl fwrw eu pleidlais, yn ogystal â chynlluniau i gynyddu maint y Senedd a newid y system bleidleisio. Bydd ein blaenoriaethau'n cynnwys sicrhau bod gweinyddwyr yn cael digon o adnoddau a bod ganddynt ddigon o amser i baratoi ar gyfer deddfwriaeth newydd, a bod pleidleiswyr ac ymgeiswyr yn deall sut mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar weithredu'r argymhellion a amlinellwyd yn ein hadroddiad ôl-etholiad 2022.

Yn ail, byddwn yn datblygu ein rhaglen addysg i sicrhau bod pleidleiswyr – yn enwedig y rhai sydd newydd eu hetholfreinio – yn ymwybodol o'u hawliau democrataidd. Bydd y gwaith hwn yn esblygu dros y flwyddyn nesaf, a byddwn yn ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc ac addysgwyr ledled Cymru i ddatblygu sawl menter newydd. Ar gyfer addysgwyr, byddwn yn datblygu cynlluniau gwersi newydd sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac yn darparu hyfforddiant athrawon ategol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall yr adnoddau hyn gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg ddemocrataidd mewn ysgolion yn effeithiol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partner llais ieuenctid, Democracy Box, i gael adborth gan bobl ifanc ar ein gwaith addysg. Mae cyd-grewyr ifanc y prosiect yn ein cefnogi i nodi pynciau pellach y gall ein hadnoddau i bobl ifanc ymdrin â nhw, ac yn sefydlu panel llais ieuenctid i Gymru. Byddant hefyd yn ein cefnogi i gynllunio digwyddiadau a

gweithgareddau ar gyfer ein Hwythnos Croeso i'ch Pleidlais flynyddol a gynhelir ym mis Ionawr 2023.

Yn olaf, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth parhaus i'r gymuned a reoleiddir yn unol â'n strategaeth cymorth rheoleiddiol. Ein nod yw darparu cymorth un i un pellach trwy gymorthfeydd a chyfarfodydd â phleidiau, i'w helpu i ddeall y canllawiau'n well er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, a byddwn yn datblygu ein deunyddiau canllaw ymhellach, gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y gymuned a reoleiddir a'r amgylchedd etholiadol newidiol.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rhwydweithiau sefydledig, gan gynnwys Bwrdd Cynghori Cymru, Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru a Phanel Pleidiau'r Senedd, i ddeall sut orau y gallwn gefnogi ein rhanddeiliaid ehangach a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadol trwy Weithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru i sicrhau bod eu barn yn cael ei hadlewyrchu yn ein gwaith. Byddwn hefyd yn ceisio datblygu ein perthynas ymhellach ag Aelodau'r Senedd fel y gallant ddeall yn llawn ein gwaith yng Nghymru a sut y gallant ymgysylltu ymhellach â'r Comisiwn.

Sicrhau gwerth am arian

Mae cyllidebau arfaethedig y Comisiwn a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u diweddaru i adlewyrchu pwysau chwyddiant sy'n effeithio ar y DU, mae hyn yn unol â'n strategaeth ariannol felly nid yw ein gwariant craidd yn uwch na datchwyddwr CMC. Mae'r un fformiwla ariannu y cytunwyd arni wedi'i defnyddio â'r flwyddyn flaenorol.

Rydym yn falch o allu cadarnhau y bydd cyfraniad arfaethedig y Senedd yn is nag ar gyfer y cyfnod 2022/23. Fel yn y flwyddyn flaenorol, gall Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor a chymorth gan y Comisiwn ar faterion penodol yn ymwneud ag etholiadau. Byddai hyn yn ychwanegol at y cyllid a ddarperir gan y Senedd.

Mesur perfformiad

Drwy gydol ein Cynllun Corfforaethol rydym yn nodi gwelliannau y byddwn yn eu cyflawni. Nod y rhain yw bod o fudd i'r cyhoedd, pleidiau ac ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a seneddau. Byddwn yn mesur pa mor dda rydym yn gwireddu'r gwelliannau hyn dros gyfnod y Cynllun gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion. Yn ddiofyn, bydd data perfformiad hefyd yn cael ei gasglu ar lefel pedair rhan y DU: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – i gefnogi'r atebolrwydd am ein gwaith. Byddwn yn defnyddio cymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol, i ysgogi gwelliannau parhaus yn ein gweithdrefnau a'n sgiliau.

Mae ein dangosyddion perfformiad corfforaethol yn eistedd ochr yn ochr â grŵp sy'n dangos safon y systemau etholiadol yn eu cyfanrwydd. Mae'r rhain yn galluogi 'gwiriad iechyd' i helpu i arwain gweithredoedd gennym ni ac eraill – gan gynnwys aelodau etholedig, y llywodraeth, ymgyrchwyr a phleidiau, hyd at weinyddwyr etholiadol a'r heddlu. Mae hon yn fenter newydd yr ydym yn ffyddiog y caiff ei chroesawu. Gan weithio gydag

eraill rydym yn gwneud cyfraniadau allweddol sy'n galluogi system ddemocrataidd gadarn. Cyfeiriwch at yr Atodiad am fanylion.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno bod ein cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod yn briodol i fynd i'r afael â maint a natur yr heriau dan sylw ac y bydd yn y pen draw yn arwain at fwy o hyder ymhlith y cyhoedd yn ein system etholiadol. Byddwn yn mesur effaith ein gweithgareddau arfaethedig drwy gydol cyfnod y cynllun hwn i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r heriau a amlinellir uchod.

Cymeradwywn yr amcangyfrif i Bwyllgor y Llywydd, ac edrychwn ymlaen at drafod y rhain gyda chi pan fo'n briodol.

Yn gywir,

Y Fonesig Elan Closs Stephens CBE
Comisiynydd Etholiadol - Cymru

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, y Comisiwn Etholiadol

Atodiad: Mesur ein perfformiad

Ein dangosyddion perfformiad corfforaethol

Cyf	Diffiniad	Targed perfformiad corfforaethol
Amcan strategol 1: Cofrestru a phleidleisio hygyrch		
1	Dylanwad ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gofrestru pleidleiswyr: Mae ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr yn bodloni neu'n rhagori ar ein targedau	Cymru: 40,800 (701,754 -Y DU)
2	Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid sy'n lledaenu gwybodaeth pleidleiswyr i grwpiau targed penodol, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd newydd eu hetholfreinio	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
3	Ymgysylltu â phartneriaid a phobl ifanc i ddatblygu adnoddau addysg democrataidd i bobl ifanc yn unol â'n Strategaeth Ddysgu	I'w ddatblygu yn 2022/23
Amcan strategol 2: Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio		
4	Cyhoeddi adroddiadau rhoddion a benthyciadau yn amserol erbyn y dyddiad cau statudol	100%
5	Cyhoeddi adroddiadau rhoddion a benthyciadau yn amserol erbyn y dyddiad cau statudol	100%
6	Dilyniant amserol a chwblhau ymchwiliadau	90%
7	Hysbysiad amserol / cyhoeddi penderfyniadau ar sancsiynau (hysbysiadau terfynol) yn dilyn cyfnod sylwadau	90%
8	Hysbysiad amserol o ganlyniad ceisiadau cofrestru ymgyrchwyr plaid a rhai nad ydynt yn perthyn i blaid (ar gyfer manylion newydd a newid manylion)	90%
9	Ymatebion amserol i geisiadau am gyngor rheoleiddio ar adrodd ariannol	90%
10	Cynhyrchion/adnoddau canllaw rheoleiddiol effeithiol yn cael eu darparu i gefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith	Eisoes yn casglu data, i'w sylfaenu yn 2021/22
11	Ymholiadau sy'n ymwneud â chynnyrch canllaw sy'n helpu i nodi meysydd presennol a/neu newydd o'r canllawiau sy'n rhoi eglurder ychwanegol gyda'r gyfraith	Eisoes yn casglu data, i'w sylfaenu yn 2021/22

Cyf	Diffiniad	Targed perfformiad corfforaethol
Amcan strategol 3: Gwasanaethau etholiadol lleol gwydn		
12	Cyngor cywir ac amserol i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid (Prydain Fawr)	100%
13	Cyhoeddi canllawiau cywir ac amserol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol	100%
Amcan strategol 4: Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol		
14	Cyhoeddi adroddiadau etholiad / refferendwm yn amserol	100%
15	Cyhoeddi adroddiad gwerthuso cynlluniau peilot yn amserol	100%
16	Ymatebion amserol i gynigion polisi ac ymgynghoriadau deddfwriaethol	100%
17	Ymatebion amserol i ohebiaeth rhanddeiliaid etholedig (AS a llywodraeth leol).	100%
Amcan strategol 5: System etholiadol fodern a chynaliadwy		
18	Y cyhoedd, ymgyrchwyr a phleidiau, gweinyddwyr etholiadol a'r cyfryngau yn ymgysylltu â'n gwefan	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
19	Amlder ymgysylltu â chyrff rheoleiddio eraill	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
20	Bodloni gofynion deddfwriaeth amgylcheddol bresennol a deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
Amcan strategol 6: Rydym yn dangos annibyniaeth ac uniondeb		
21	Ymatebion amserol i ymholiadau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg	100% o fewn un diwrnod gwaith
22	Ymatebion amserol i ymholiadau cyhoeddus Cymraeg a Saesneg trwy alwadau, llythyrau ac e-byst	100%
23	Ymatebion amserol i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth dilys yn y Gymraeg a'r Saesneg	100%
24	Ymatebion amserol i Geisiadau am Fynediad at Wybodaeth dilys yn y Gymraeg a'r Saesneg	90%
Amcan strategol 7: Rydym yn sefydliad medrus lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth		
25	Cynnal sgôr lles staff yn yr arolwg staff	77%
26	Cynnal sgôr ymgysylltiad staff yn yr arolwg staff	67%

Cyf	Diffiniad	Targed perfformiad corfforaethol
27	Cynnal cyflawnder gwybodaeth ar amrywiaeth gweithlu	85%
28	Parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg	100%
Amcan strategol 8: Rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus a defnyddir adnoddau yn effeithiol.		
29	Fframwaith gwerth cyhoeddus: Mae cost darparu ein gwasanaethau fesul trethdalwr y flwyddyn yn aros o fewn llinell sylfaen y cytunwyd arni	80 ceiniog
30	Gweithredu argymhellion archwilio mewnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio, yn amserol	90% o 2022/23
31	Amodi ein datganiadau ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon	Barn archwilio ddiamod
32	Rheoli ansawdd: canran y prosesau a ddogfennwyd ac a adolygwyd ar gyfer gwelliant parhaus	l'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
33	Gweithredu argymhellion archwilio allanol y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol, yn amserol	100%
34	Talu anfonebau dilys a diamheuol yn brydlon	100%
35	Llai o effaith amgylcheddol defnydd ynni	l'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)

Dangosyddion ar gyfer safon y systemau etholiadol

Cyf	Diffiniad	Targed system
S1	Hyder mewn pleidleisio	95%
S2	Hyder wrth gofrestru i bleidleisio	95%
S3	Pleidleisiau a wrthodwyd a heb eu cynnwys yn y cyfrif ar gyfer etholiadau	Mor agos at 0% â phosibl
S4	Bodlonrwydd â'r broses o bleidleisio	85%
S5	Bodlonrwydd gyda'r system o gofrestru i bleidleisio	85%
S6	Canfyddiad bod y broses bleidleisio yn hawdd	95%

Cyf	Diffiniad	Targed system
S7	Llai o rwystrau i bleidleisio gan grwpiau sydd yn draddodiadol wedi'u tan gofrestru gan gynnwys grwpiau sydd newydd eu hetholfreinio	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
S8	Llai o rwystrau i gofrestru gan grwpiau sydd yn draddodiadol wedi'u tan gofrestru gan gynnwys grwpiau sydd newydd eu hetholfreinio	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
S9	Canfyddiad y bydd yr awdurdodau'n cymryd camau priodol os yw plaid wleidyddol neu ymgyrchydd yn cael ei dal yn torri'r gyfraith ar ariannu ymgyrch	75%
S10	Cytundeb neu ganfyddiad bod gwariant a chyllid pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a sefydliadau ymgyrchu eraill yn agored ac yn dryloyw	75%
S11	Nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig sy'n ymwneud â throseddau cyllid gwleidyddol, a adroddir i heddluoedd y DU bob blwyddyn galendr (gan gynnwys nifer yr achosion sy'n arwain at euogfarn neu rybudd)	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
S12	Lefel cydymffurfio gan unigolion ac endidau rydym yn eu rheoleiddio â therfynau amser a bennir gan ddeddfwriaeth	100%
S13	Hyder bod ymgyrchu yn ddibynadwy	I'w ddatblygu yn 2022/23 (blwyddyn 1)
S14	Hyder bod etholiadau'n cael eu cynnal yn dda	80%
S15	Canfyddiad bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamdriniaeth	90%
S16	Lefelau cywirdeb y cofrestrau etholiadol	95%
S17	Lefelau cyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol	95%
S18	Nifer asesiadau perfformiad ffurfiol Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau sy'n pennu safonau heb eu bodloni	0
S19	Nifer y darnau o ddeddfwriaeth etholiadol nad ydynt ar waith chwe mis cyn y mae angen eu gweithredu	0
S20	Ymatebion prydlon gan lywodraethau perthnasol i'n hadroddiadau ar etholiadau, refferendwm ac argymhellion polisi eraill, gan gynnwys gwerthusiadau peilot.	100%